# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-09-09)**

## SLC259

### Adroddiad Drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Teitl: Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2009

Gweithredu yng Nghymru Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd Rhif 2008/39/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2002/72/EC drwy ddiweddaru'r rhestrau o sylweddau monomer ac ychwanegion a ganiateir eu defnyddio wrth weithgynhyrchu deunydd plastig sy'n dod i gysylltiad â bwyd a gosod amodau ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel.

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r offeryn yn torri'r rheol 21 diwrnod gan ei fod wedi'i wneud ar 4 Mawrth 2009 a'i osod gerbron y Cynulliad ar 6 Mawrth 2009 a daeth i rym ar 7 Mawrth 2009. Dywed y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ, yn ei lythyr at y Llywydd dyddiedig 6 Mawrth 2009 fod y rheol wedi'i thorri o ganlyniad i'r angen i drosi'r Gyfarwyddeb a'i rhoi ar waith erbyn 7 Mawrth 2009.

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

Drafftiwyd yr offeryn yn Saesneg yn unig - Rheol Sefydlog 15.2 (ix)

Yn ei lythyr at y Llywydd nododd y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ fod y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol wedi penderfynu na fyddai'n ymarferol bosibl i wneud y Rheoliadau'n ddwyieithog oherwydd eu hyd a'u cymhlethdod a'r angen i drosi'r Gyfarwyddeb a'i rhoi ar waith erbyn 7 Mawrth 2009. Mae'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ wedi cadarnhau y bydd cyfieithiad Cymraeg o'r Rheoliadau ar gael maes o law.

Dylid diwygio'r cyfeiriad at 'Ysgrifennydd Gwladol' ar Dudalen 7, Paragraff 2 i gyfeirio at 'Weinidogion Cymru' - Rheol Sefydlog 15.2 (vi)
Mae angen i'r 'tymheredd prawf' gael ei gyflunio'n gywir â'r 'tymheredd cyswllt' yn y tabl yn Atodlen 3, Rhan 5, Paragraff 7 (tudalen 49), - Rheol Sefydlog 15.2 (vi)

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**Mawrth 2009**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Mae'r llywodraeth yn derbyn y pwyntiau adrodd ynghylch paragraff 2 o'r

rhaglith i'r rheoliadau ac ynghylch fformadu'r tabl ym mharagraff 7 o atodlen 3 ac mae'n bwriadu cywiro'r ddau bwynt adrodd yn syth pan gyhoeddir yr OS.